**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Llun, 10 Hydref 2022 am 5.00 pm ym Rhithwir.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 Aelodau oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd K Webb | Y Cynghorydd G E Williams |

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr L Patterson, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol
Mr M Veale, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Service Director Democratic Services & Communications

Mr P Griffiths, Service Director Finance and Improvement Services

**10 Datganiadau o Fuddiant**

Doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â’r agenda.

**11 Dolenni Ymgynghori**

Rhoddodd y Blaen Swyddog Craffu wybod i'r Aelodau am yr ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd er mwyn i Aelodau ddarparu adborth os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Nododd hefyd bod modd i Aelodau gysylltu â'r Garfan Craffu os ydyn nhw'n dymuno cael rhagor o wybodaeth.

**12 Cofnodion**

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022 a 20 Gorffennaf 2022 fel cofnod gwir a chywir o’r cyfarfod

**13 Adroddiad Cyflawniad y Cyngor - Chwarter 1 (2022/23)**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adroddiad i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad yma'n rhoi cyfle i Aelodau graffu ar gyflawniad ariannol a gweithredol y Cyngor yn ystod Chwarter 1 (hyd at 30 Mehefin 2022)

Yna, tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella sylw at bwyntiau allweddol yr adroddiad. Rhoddodd wybod i Aelodau bod y sefyllfa o

ran y Gyllideb Refeniw yn y chwarter cyntaf yn rhagamcanu gorwariant o £10.45miliwn, sydd llawer yn uwch na blynyddoedd blaenorol. Ychwanegodd fod y rhagamcaniad yn ystyried y cynnydd amcangyfrifiedig ar gyfer gwasanaethau megis y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, costau chwyddiant ychwanegol megis gwasanaethau cludiant ysgol a llai o bobl yn manteisio ar wasanaethau, megis y Gwasanaethau Hamdden, wrth i bobl barhau i ymadfer yn dilyn effaith pandemig Covid-19 ac argyfwng costau byw'r DU.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella ymlaen i ddweud bod y buddsoddiad Cyfalaf ar 30 Mehefin 2022 yn cyfateb i £13.842miliwn, gyda nifer o gynlluniau yn cael eu hail-broffilio yn ystod y chwarter i adlewyrchu'r newid o ran costau ac amserlenni cyflawni wedi'u diweddaru, mae cyllid grant allanol newydd sydd wedi'i gymeradwyo yn ystod y chwarter hefyd wedi'i gynnwys yn rhan o'r rhaglen. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ati i drafod yr adroddiad yn ei gyfanrwydd ac yna croesawodd sylwadau a chwestiynau gan Aelodau.

Cyfeiriodd Aelod at golli staff y Gwasanaethau Cymuned gan holi pam eu bod nhw wedi gadael. Gofynnodd Aelod arall am eglurhad ynghylch sut y byddai modd cyflogi staff newydd (yn lle'r staff sydd wedi gadael) gan ystyried yr arbedion cyllidebol sydd eu hangen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod staff wedi gadael oherwydd salwch ac ymddeoliad, neu'n syml, maen nhw wedi dewis gadael y sefydliad. Cadarnhaodd fod gweithdrefnau AD ar waith pan fydd aelod o staff yn gadael, mae'r rhain yn cynnwys cyfweliadau ymadael fel bod modd i'r sefydliad ddysgu o brofiadau'r unigolion yma. Aeth ymlaen i ddweud bod y Cyngor yn ystyried dulliau mwy effeithlon o weithio o hyd, gan gynnwys dulliau trawsnewid digidol a gweithdrefnau gweithio gartref. Roedd yn cydnabod bod hyn yn anoddach mewn lleoliadau fel ysgolion oherwydd nifer yr athrawon a natur eu gwaith, felly yn gyffredinol caiff athrawon newydd eu penodi yn lle'r athrawon sy'n gadael. Dywedodd wrth yr Aelodau fod trefniadau gwych ar waith o ran cynllunio'r gweithlu, ac mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'n prentisiaid, swyddogion graddedig, ysgolion a phrifysgolion yn barhaus gan weithredu dull sy'n canolbwyntio ar feithrin talent yn fewnol. Ychwanegodd y byddai modd defnyddio asiantaethau lle bo angen. Fodd bynnag, aeth ymlaen i gydnabod bod y bwlch yn y gyllideb yn golygu y bydd y Cyngor yma'n wynebu heriau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cyfathrebu â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill ar y mater yma. Aeth ymlaen i ddweud bod y carfanau cyllid hefyd yn gweithio gyda phob deiliad cyllideb i nodi arbedion cyllidebol posibl ar gyfer pob Cyfadran, ynghyd ag adolygiad o ffioedd a chostau.

Nododd Aelod fod yna grŵp llywio sy'n adrodd ar faterion recriwtio a chadw staff a gofynnodd a fyddai modd i'r Pwyllgor dderbyn trosolwg o'r gwaith y mae'r grŵp yn ei wneud. Gofynnodd sut y byddai modd i'r Awdurdod roi cymorth gwell i staff gofal a oedd dan lawer o bwysau ac yn derbyn cyflog isel.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella y byddai modd i'r Grŵp Llywio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Aeth ymlaen i ddweud bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i dalu cyflog teg i staff ac mae'r ymrwymiad yma wedi'i adlewyrchu yn y Polisi Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae staff hefyd yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol ac mae'r Cyngor yn sicrhau eu bod nhw'n teimlo'n rhan o garfan yn ystod eu cyflogaeth.

Mynegodd Aelod bryderon ynghylch colli incwm a gofynnodd sut mae'r Awdurdod yn annog rhagor o bobl i ddefnyddio'n cyfleusterau hamdden er mwyn cynyddu incwm. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod ymgyrch farchnata newydd wedi'i lansio ar gyfer cyfleusterau Hamdden a hynny i gynyddu'r nifer o bobl sy'n manteisio ar y cyfleusterau yma, megis cynigion rhagarweiniol a rhaglenni adsefydlu i wella iechyd a lles trigolion. Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymaelodi, felly dylen ni weld sefyllfa well yn Chwarter 2. O ran y rhagolygon economaidd mewn perthynas â thrigolion sy'n talu Treth y Cyngor, mae'r Awdurdod yn sicrhau ein bod ni'n rhoi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl ac rydyn ni'n parhau i ymgysylltu â thrigolion, yn enwedig y rheiny sy'n wynebu caledi gan sicrhau eu bod nhw'n effro i'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Y gobaith hefyd yw y byddai'r taliadau Costau Byw a'r taliadau Costau Byw Lleol a awdurdodwyd gan y Cabinet i gefnogi teuluoedd â phlant oedran ysgol yn RhCT yn eu cefnogi drwy gyfnod y gaeaf.

Cyfeiriodd Aelod at yr anghenion o ran llety yn y Fwrdeistref ac roedd yn bryderus bod y ffigurau digartrefedd yn dyblu. Gofynnodd a fyddai modd i'r Pwyllgor dderbyn rhagor o wybodaeth am y maes hwn.
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod Llety ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed wedi'i gynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull strategol ac mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid allanol ar hyn o bryd i ymchwilio i'r pwysau ar y gwasanaeth. Dywedodd y bydd diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno yn rhan o gynllun gweithredu unigol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y byddai'r mater yma'n cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cymunedau.

Gofynnodd Aelod a oedd Cofrestr Risg Strategol fanylach sy'n cael ei harchwilio'n rheolaidd yn bodoli. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella, fod Cofrestr wedi'i sefydlu a bod y Gofrestr yma'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at danwariant yn y gwasanaeth ADY a gofynnodd pa effaith mae hyn yn ei chael ar y gwasanaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod y tanwariant presennol yn deillio o Ddeddf ADY 2018 a ddaeth i rym ym mis Medi 2021, ac yn dilyn hyn, cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth Addysg adolygiad o'r gofynion o ran adnoddau. Roedd hyn wedi arwain at ailstrwythuro a chreu swyddi ychwanegol. Cafwyd rhai anawsterau wrth recriwtio i bob swydd felly mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd y swyddi'n cael eu llenwi drwy gydol y flwyddyn.

Cyfeiriodd aelod at ffigurau absenoldeb oherwydd salwch a throsiant staff a gofynnodd pa effaith mae hyn yn ei chael ar ein Cymunedau ac a oes unrhyw beth arall y dylai aelodau fod yn ymwybodol ohono.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella trwy ddweud bod sefyllfa Cyllideb Refeniw'r Cyngor yn golygu bod angen rhoi trefniadau cyflenwi staff ar waith, gan gynnwys trefniadau goramser, staff achlysurol a staff asiantaethau. Er bod gweithredu'r mesurau yma'n rhoi pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor, ychwanegodd fod y trefniadau'n sicrhau nad yw'r Gwasanaethau Rheng Flaen yn gwanhau neu'n waethygu.

Cyfeiriodd Aelod at sylwadau cynharach o ran sut mae’r Cyngor yn datblygu ei weithwyr ei hun, nododd ei fod yn gwerthfawrogi'r angen i greu diwylliant o

ddysgu ond gofynnodd a ydyn ni mewn perygl o golli cyfleoedd trwy edrych tuag i mewn yn unig.
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod hyn yn rhywbeth y byddai modd i'r Grŵp Llywio ar faterion Recriwtio a Chadw Staff roi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau amdano. Mae modd i hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch materion mewnol, gwaith meincnodi sy'n cael ei gynnal a pha gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i gydweithwyr.

Ar ôl i'r Aelodau holi cwestiynau, dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth am ei adroddiad ac am ymateb i gwestiynau'r Aelodau. Ychwanegodd ei bod hi'n dymuno bod rhagor o ddiweddariadau ac adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, a bod gwybodaeth bellach yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned, megis gwaith y Grŵp Llywio ar faterion Recriwtio a Chadw Staff, a Digartrefedd ac anghenion o ran Llety yn y Fwrdeistref.

**PENDERFYNWYD:**

1. Bod yr Aelodau wedi craffu ar gyflawniad ariannol a gweithredol y Cyngor yn Chwarter 1 (hyd at 30 Mehefin 2022).

Trafodwyd y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd y rhain yn destun craffu pellach.

**14 Diweddariad ar Gynnydd y Cyngor - Archwilio Cymru: Adroddiadau Llamu Ymlaen (Rheoli Asedau'n Strategol a Chynllunio'r Gweithlu)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad yma'n cyflwyno adroddiadau diweddaraf Archwilio Cymru i'r Pwyllgor mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor ac yn rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud hyd yn hyn o ran rhoi'r argymhellion ar waith.

Yn 2021/22, cynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad o drefniadau a dulliau cyffredinol pob Cyngor mewn perthynas â thrawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hyn mewn perthynas â rheoli'i asedau a'i weithlu mewn modd strategol.

Er gwybodaeth, nid oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi nodi unrhyw faterion i'w cyfeirio yn ôl at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod ei gyfarfod ar 7 Medi 2022

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella ymlaen i nodi manylion yr adroddiad a oedd yn trafod un argymhelliad gan Archwilio Cymru. "Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn llywio ei ddull mewn perthynas â'i holl asedau. Er enghraifft, dylai'r Cyngor ddatblygu dull gweithredu mwy hirdymor mewn perthynas â'i asedau; a bydd angen i'r Cyngor integreiddio ei weithlu a'i strategaethau digidol yn llawn yn rhan o'r cynlluniau tymor hwy ar gyfer ei asedau". Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad 1a sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn ymgymryd â'r camau a fydd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad yma.

Holodd Aelod gwestiwn ynghylch pa Bwyllgor sy'n derbyn gwybodaeth am y

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod gwybodaeth am y mater yma'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o bryd i'w gilydd wrth iddo gael ei adnewyddu. Gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, caiff ei gyflwyno fel eitem eithriedig.

Dywedodd Aelod y byddai modd adolygu dulliau rheoli asedau'r Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â dulliau gweithio hybrid a sut caiff hyn ei reoli o ran unigedd a llesiant staff. Ychwanegodd Aelod arall at hyn a phwysleisiodd bwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â staff, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o gael eu hynysu wrth weithio gartref a sicrhau bod eu lles yn cael ei flaenoriaethu.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth trwy ddweud y bydden ni'n disgwyl gweld egwyddorion sy'n cynnwys manteisio i'r eithaf ar asedau ein canol trefi yn rhan o'n Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol i gefnogi adfywiad ein canol trefi. Gan gyfeirio at Llesiant staff, rhoddodd wybod i'r Aelodau bod gwaith ymgysylltu parhaus yn cael ei gynnal gyda staff, megis arolygon ynghylch gweithio gartref ac yn y swyddfa ac ymgysylltu â charfanau unigol. Mae meysydd gwasanaeth gwahanol yn rhannu adeiladau ac rydyn ni'n ceisio adborth gan staff yn gyson i sicrhau bod y dull yma'n parhau i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau'r Cyngor ac adnoddau o ran staff.

Holodd Aelodau a fydd yr Awdurdod yn adolygu'r proffil Cymuned i sicrhau bod asedau'n cael eu dosbarthu'n deg, a hefyd a fyddai lefelau tlodi plant yn cael eu hystyried wrth adolygu'r proffil yma fel bod modd i ni gefnogi'r asedau sydd eu hangen mwyaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella y bydd dull y Cyngor o ran rheoli asedau yn sicrhau bod cyfleusterau yn y sefyllfa orau posibl i gefnogi'n cymunedau, bydd lleoliad yn hollbwysig a phwysleisiodd y bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr asedau yma o safon dderbyniol, yn enwedig o ran effeithlonrwydd ynni a Newid yn yr Hinsawdd, fel eu bod nhw'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y bydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd y Cyhoedd, sy'n ystyried yr holl ofynion ar gyfer gwneud penderfyniadau allweddol, yn cael ei gynnal wrth wneud y penderfyniadau yma, a hynny'n rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol.

Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella yr amserlen sydd ar waith ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael ei lunio erbyn 31 Mawrth 2023 a bydd modd i Aelodau ei adolygu.

Cyfeiriodd Aelod at y broses o waredu asedau, gan nodi bod modd i'r broses gymhleth yma gymryd peth amser ar gyfer ein partneriaid yn y gymuned. Holodd a fyddai modd symleiddio'r broses yma.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod y broses Trosglwyddo Asedau yn rhan o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei adolygu wrth i ni dderbyn adborth gan ein partneriaid yn y sector gwirfoddol, i wneud yn siŵr ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben gan sicrhau bod diwydrwydd dyladwy ar waith drwy gydol y broses.

**PENDERFYNWYD:**

1. Bod Aelodau wedi cynnal gwaith craffu mewn perthynas â'r diweddariad cynnydd (Atodiad 1a - Rheoli Asedau'n Strategol ac Atodiad 2a - Cynllunio'r Gweithlu).
2. Trafodwyd y cynnydd sydd wedi'i wneud gan Wasanaethau'r Cyngor hyd yn hyn mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion a nodwyd gan Archwilio Cymru a phenderfynu p'un a oes angen gwybodaeth bellach a/neu ddiweddariadau cynnydd pellach ai peidio.
3. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch unrhyw faterion llywodraethu, mesurau rheoli mewnol neu reoli risgiau y mae angen eu cyfeirio at Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor.

**15 Materion Brys**

Dim

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.15 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**